trefriw
outdoors | awyr agored

# Trail Trywydd 6 & 7

**TRO TREFRIW 6** - O'r maes parcio gyferbyn â'r Felin Wlân, trowch i'r dde i'r ffordd fawr ac ewch dros y bont. Trowch i'r chwith i fyny'r allt gyferbyn â gwesty'r Fairy Falls. Ewch yn syth ar draws dwy gyffordd, ac at drydedd gyffordd lle mae arwydd yn cyfeirio i fyny i'r dde tuag at y fynwent, ewch i fyny'r ffordd serth yma. Ar ôl oddeutu 100m trowch i'r dde ac i mewn i'r goedwig ar lwybr llydan. Dilynwch y ffordd goedwigaeth am oddeutu 300m at gyffordd wrth waith dŵr y pentref. Cymerwch y llwybr i'r dde, yr un isaf, a dilynwch hwn am oddeutu 250m, wedyn trowch i fyny i'r chwith, oddi ar y ffordd goedwigaeth i lwybr sydd wedi'i farcio. Ewch i fyny'r llwybr drwy'r coed at bont bren, wedyn daliwch i fynd ar i fyny. Pan gyrhaeddwch chi'r ffordd goedwigaeth, trowch i'r dde i fyny'r allt. Wrth y gyffordd nesaf, trowch i'r chwith ac yna, ar ôl rhyw 40m, fe welwch chi ar y dde lwybr i fyny at Graig Fagnel Trefriw (rhyw 100m o'r ffordd goedwigaeth).
Wedi ymweld â'r Graig dewch yn ôl i'r ffordd goedwigaeth a pharhau yn eich blaen ar i fyny am hanner milltir nes eich bod chi'n cyrraedd Ffordd Cowlyd unwaith eto. Trowch i'r chwith ac i lawr y ffordd am oddeutu 50m nes eich bod chi'n cyrraedd mynediad i dŷ ac arwydd llwybr troed. Mae Tro 7 yn dilyn y llwybr hwn, ond ewch chi i lawr y ffordd cyn belled â'r fynwent. Trowch i'r dde wrth wal y fynwent, i groesi cae a chyrraedd Ffordd Crafnant. Dilynwch y ffordd i'r chwith i ddychwelyd i'r pentref a'ch man cychwyn.

Pellter: 4.5km / 2.8mi

**TRO TREFRIW 7** - (Dilynwch Dro 6 i gyrraedd man cychwyn y Tro hwn.) Ewch i lawr y ffordd mynediad i Gelli Newydd. Cerddwch heibio'r olwyn ddŵr a'r tŷ, wedyn dringwch dros y gamfa ar y dde a throwch i'ch chwith.
Ewch ar hyd y ffordd ar hyd ymyl cae ac ar draws dwy nant. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr wedi'i farcio at ymyl y goedwig lle mae angen troi'n sydyn i'r chwith i lawr at gamfa cyn parhau ymlaen drwy goedwig at bont bren. Ewch ar draws y bont ac yn eich blaen. Ar ôl yr ail giât gwnewch dro sydyn i'r chwith ac ewch ar i lawr nes eich bod yn dod allan ar Ffordd Crafnant.

Trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r ffordd am oddeutu 250m at arwydd llwybr troed sy'n pwyntio i'r chwith. Ewch i lawr y llwybr yma at bont sy'n croesi'r Crafnant. Ewch dros y gamfa a dilynwch y ffens at lwybr gro llydan lle byddwch chi'n troi i'r chwith. Dilynwch y llwybr llydan am 500m, lle byddwch chi'n gweld pont bren ar eich ochr chwith. Wrth y bont, trowch i'r dde oddi ar y llwybr gro ac i lwybr troed wedi'i farcio. Dilynwch hwn drwy giât i gae. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr ac i'r adwy i'r cae nesaf. Croeswch y cae, ac mae'r llwybr yn parhau drwy goed bach wrth yr afon, ar draws cae, ac yna'n dod allan wrth gae chwarae plant. Ewch i'r chwith ar hyd y ffordd, i lawr at gyffordd lle bydd angen mynd i'r chwith ar draws yr afon a dilyn y ffyrdd i lawr drwy Drefriw i'ch man cychwyn.

Pellter (sy'n cynnwys rhan o Dro 6) : 9km / 5.6mi.

